Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

**Heol Llangewydd**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4JW**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 263 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 207 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 44% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2008 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

**a.** Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol ofalgar, â'i hymroddiad i'r gymuned yn ganolog iddi. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ystyriol ac yn gydwybodol i hyrwyddo ethos a nodweddir gan ei chred gref mewn creu teulu Catholig ymroddgar.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn ategu ei gweledigaeth ar gyfer dysgu a lles ac yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arwain trwy esiampl. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan arweinwyr ac aelodau staff eraill mewn datblygu partneriaethau cryf iawn â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn meithrin perthnasoedd cryf â staff ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Pan fydd plant yn dechrau yn y dosbarth meithrin, mae ystod y galluoedd yn eang. Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd islaw disgwyliadau yn gysylltiedig ag oedran. Fodd bynnag, o fewn cyfnod byr iawn, o ganlyniad i ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog, mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cryf. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), neu'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn iddynt adael, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda ar draws y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae athrawon yn effeithiol o ran cyflwyno cwricwlwm a ddatblygwyd gan yr ysgol dros sawl blwyddyn yn ddiweddar. Mae ei egwyddorion wedi'u seilio ar ffocws ar barthau dysgu sy'n cael eu hailadrodd wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Mae'r parthau hyn yn galluogi disgyblion i archwilio'r un testunau a themâu yn fynych, dyfnhau eu dealltwriaeth ac ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u geirfa yn effeithiol. I gefnogi parthau dysgu, mae athrawon yn defnyddio'r awyr agored yn ddychmygus i greu cyfleoedd dysgu cyffrous, gan hyrwyddo cyfranogiad disgyblion a'u mwynhad mewn dysgu.

Ceir diwylliant cynhyrchiol o fyfyrio a gwerthuso o fewn yr ysgol ac mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n briodol ar werthuso ansawdd yr addysgu yn rheolaidd, ond nid yw hi bob amser yn ddigon clir i staff ar beth mae angen iddynt ganolbwyntio fwyaf er mwyn gwella.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau a hyder athrawon mewn addysgu Cymraeg i wella'r cynnydd a wna disgyblion

A2 Gwella prosesau hunanwerthuso i nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer eu disgyblion ieuengaf, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus a'r rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da, o leiaf, o'u mannau cychwyn yn y rhan fwyaf o agweddau ar eu dysgu. Mae disgyblion SIY yn hynod lwyddiannus yn caffael y medrau iaith sydd eu hangen arnynt i elwa ar y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn galw i gof y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn flaenorol yn dda, ac yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol wrth fynd i'r afael â dysgu newydd.

Mae medrau siarad a gwrando disgyblion yn gryf, ar y cyfan. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu gwrando'n ofalus ac maent yn barod i siarad o'u gwirfodd â phobl eraill. Ar draws y dosbarthiadau dysgu sylfaen, maent yn caffael ystod o eirfa berthnasol i siarad am eu dysgu a rhannu eu syniadau. Wrth iddynt symud ymlaen, mae disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir ac yn ateb cwestiynau â chymhwysedd cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn cyfrannu at drafodaethau ac yn rhesymu â disgyblion eraill yn rhesymegol.

Mae medrau Cymraeg disgyblion yn llai datblygedig. Er bod disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn cael dechrau da o ran dysgu geiriau ac ymadroddion sylfaenol, mae cynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol yn gyfyngedig. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu lefelau digon da o ddealltwriaeth na'r hyder i gynnal sgyrsiau syml.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen da sy'n eu galluogi i elwa ar y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwrando ar storïau. Mae gwybodaeth ffoneg disgyblion yn datblygu'n systematig wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac mae hyn yn golygu eu bod yn dod yn ddarllenwyr cynnar hyderus. Maent yn darllen yn frwdfrydig, yn trafod llyfrau gyda disgyblion eraill, ac yn defnyddio'u medrau darllen yn dda i'w helpu i ddysgu. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu cariad at ddarllen. Mae disgyblion hŷn yn siarad am eu hoff genres ac awduron yn estynedig. Maent yn darllen yn rhugl ac yn llawn mynegiant, ac yn datblygu ystod briodol o fedrau darllen, fel llithrddarllen a sganio i ddod o hyd i ddarnau penodol o wybodaeth.

Mae disgyblion yn dysgu ysgrifennu at ystod eang o ddibenion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gynnar o ddiben ysgrifennu

trwy eu chwarae, a phan fyddant yn barod, maent yn dechrau adnabod a ffurfio llythrennau a chreu geiriau. Wrth iddynt symud ymlaen, mae disgyblion yn mynegi eu hunain yn ysgrifenedig â chywirdeb cynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio siartiau llif i'w helpu i drefnu eu hysgrifennu. Mae ychydig ohonynt sy'n barod i ysgrifennu heb fframwaith yn defnyddio geiriau dilyniant, fel 'cyntaf', 'wedyn' a 'nesaf'. Maent yn defnyddio geiriau'n gywir i ffurfio cyfres resymegol o frawddegau i greu adroddiad cronolegol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cyflawni lefel dda o stamina ysgrifennu ac yn llunio darnau ffeithiol estynedig a chywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geiriau ac ymadroddion i gofnodi ymgysylltiad y darllenydd wrth ysgrifennu'n greadigol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd iddynt wneud hyn.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn mathemateg ac yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn mesur ac yn cymharu taldra eu ffrindiau, ac yn defnyddio'u medrau'n effeithiol mewn gweithgareddau mesur ar dripiau maes daearyddiaeth. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif. Buan y maent yn adnabod rhifau i ddeg ac yn eu rhoi yn eu trefn. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y wybodaeth hon yn effeithiol, ac yn dysgu defnyddio pedair rheol rhif yn llwyddiannus, er enghraifft i ddatrys problemau syml. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau rhif yn hynod effeithiol wrth weithio gydag agweddau ar fathemateg fel canrannau ac algebra sylfaenol.

Mae medrau digidol disgyblion yn cynyddu dros gyfnod er mwyn iddynt allu defnyddio technoleg yn bwrpasol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn fedrus i dynnu lluniau i gofnodi eu dysgu, gwrando ar storïau, a'u darllen, a chwarae gemau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn meddu ar amgyffrediad cadarn o godio sylfaenol, maent yn ymchwilio yn annibynnol, yn cyflwyno'u gwaith mewn gwahanol ffurfiau ac yn defnyddio rhaglenni'n fedrus i fewnbynnu data a chreu ystod o siartiau, graffiau a modelau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol cryf. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ystod o brofiadau addysgu arbenigol sy'n meithrin eu creadigrwydd.

O gyfnod cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol bras a'u medrau echddygol mân trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o offer a chyfarpar mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored. Mae'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu symud o gwmpas yr ardal goetir gan ddefnyddio eu medrau balansio a dringo yn gryfder arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu detholiad da o fedrau pêl trwy wersi Addysg Gorfforol diddorol a gweithdy gydag aelodau o un o glybiau pêl-droed Cymru.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol, ac yn teimlo'u bod yn ddiogel ac yn derbyn gofal da. Mae disgyblion hŷn yn datblygu'r medrau sydd eu hangen i ddatrys anghytundebau yn annibynnol, ac yn falch o'u rôl fel 'cymodwyr'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trin ei gilydd â pharch, ac yn dangos empathi a chefnogaeth i'w ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol. Maent yn foesgar a chwrtais â'i gilydd ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch wrth wrando ar safbwyntiau pobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-chwarae, ac yn cymryd eu tro mewn gemau yn ystod amseroedd chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â thestunau'r dosbarth, o'r enw parthau. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi, yn canolbwyntio'n dda ac yn osgoi pethau i dynnu eu sylw wrth iddynt gwblhau eu tasgau. Mae disgyblion iau yn archwilio'r amgylchedd dysgu'n hyderus ac yn dangos dyfalbarhad trwy chwarae, er enghraifft wrth geisio ychwanegu baner Cymru at eu model o gastell.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn eu Litwrgi dyddiol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn arddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad wrth addoli ar y cyd bob dydd. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer ohonynt yn cyfrannu eu syniadau at gynllunio testunau eu parthau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gallu cynyddol i wneud dewisiadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn mynd ati i wneud eu gwaith, a'i gyflwyno.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn myfyrio ar eu dysgu o oedran cynnar. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i adborth llafar i ddatblygu eu medrau ymhellach. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud defnydd priodol o hunanasesu ac asesu cyfoedion i wneud newidiadau i'w gwaith. Mae hyn yn cefnogi eu cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn briodol trwy amrywiaeth o rolau a phwyllgorau llais y disgybl, er enghraifft y Cymodwyr (Peace Makers) a'r Criw Cymraeg. Wrth ymgymryd â'r rolau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus ac yn gallu esbonio lle mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae Pwyllgor yr Amgylchedd yn trefnu darparu offer chwarae newydd ar gyfer iard yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o amrywiaeth ddiwylliannol trwy ddysgu am wahanol grefyddau a dathlu diwylliannau amrywiol o bob cwr o'r byd. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gysyniad tegwch a chydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos dealltwriaeth briodol o rai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, er enghraifft yr angen i warchod yr amgylchedd. Fel enghraifft, maent yn casglu dŵr glaw i'w ddefnyddio ar gyfer garddio. Maent yn falch o'u hymdrechion i gefnogi elusennau cenedlaethol a lleol, fel y banc bwyd lleol ac Apêl Ddyngarol Cafod ar gyfer Wcráin. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill ac yn eu helpu i ddatblygu fel dinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn deall canlyniadau gormod o amser sgrin, a disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd glynu at gyfyngiadau oedran ar blatfformau digidol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod ei bod yn bwysig cadw'n iach ac yn heini. Maent yn siarad yn aeddfed am

bwysigrwydd datblygu arferion da o ran dewisiadau bwydydd iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn wybodus am effaith trefn dda ar eu hiechyd a'u lles.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi meddwl yn sylweddol am ddatblygu, dylunio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol dros gyfnod. Mae'r broses hon wedi cael ei chefnogi'n effeithiol gan ddisgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut mae'r cynlluniau hyn yn cyflawni gofynion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn myfyrio arnynt yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am y meysydd neu'r parthau y mae eu plant yn eu hastudio, ac mae hyn yn eu hannog i gynorthwyo'u plant â'u dysgu gartref.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn ddifyr ac yn ddiddorol. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth disgyblion mewn ystod eang o barthau ac yn sicrhau bod disgyblion yn caffael yr eirfa sydd ei hangen arnynt i siarad am bob un ohonynt. Mae'r amrywiaeth o wybodaeth o fewn y rhain yn cynnig lefel o her ar gyfer disgyblion sydd wedi'i bwriadu i godi eu dyheadau a chynnig posibiliadau o ran gyrfa na fyddai disgyblion ifanc efallai wedi'u hystyried fel arall, fel seryddiaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod o gyfleoedd addas i'r holl ddisgyblion feithrin a defnyddio'u medrau mewn llythrennedd, rhifedd a dysgu digidol yn raddol.

Mae amlinelliad o barthau cytunedig i'w hastudio dros gyfnod yn golygu y gall disgyblion ailedrych ar feysydd astudio tebyg mewn gwahanol gyfnodau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae hyn yn eu hannog i greu cysylltiadau â dysgu a phrofiad blaenorol ac yn atgyfnerthu eu dysgu mewn ffordd ystyrlon. Mae gan athrawon yr hyblygrwydd i deilwra'r cwricwlwm i weddu i anghenion a diddordebau eu disgyblion ac ymateb i syniadau disgyblion. Mae grŵp ymgynghorol y disgyblion ar gyfer y cwricwlwm yn trafod y cwricwlwm yn ei gyfarfodydd, ac yn cynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer ei ddatblygu.

Mae staff yn uchafu'r defnydd o ardaloedd dysgu'r ysgol yn yr awyr agored a'r ardal leol i gynnig profiadau dysgu dilys i ddisgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am gadw gwenyn ac yn cael profiad ohono, ac yn tyfu llysiau yn y rhandir. Maent yn cynaeafu'r mêl i'w werthu ac yn defnyddio'r llysiau i goginio prydau bwyd iach. Mae defnydd medrus athrawon o'r awyr agored yn cyfoethogi'r dysgu, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Mae'r profiadau dysgu cyfoethog sy'n cael eu cynllunio gan athrawon ar gyfer y disgyblion hyn yn ymestyn gallu disgyblion yn sylweddol i fentro, magu hyder a bod yn uchelgeisiol ynglŷn â'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio cyfleoedd yn ystod gwersi i egluro cysyniadau a chadarnhau'r camau nesaf mewn dysgu yn briodol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn dangos lefelau da o wybodaeth bynciol a hyder ar draws y rhan fwyaf o agweddau ar y cwricwlwm. Mae defnydd yr ysgol o arbenigedd penodol mewn rhai meysydd addysgu, er enghraifft mewn addysgu gwersi cerddoriaeth i ddosbarthiadau, yn ymestyn y cwricwlwm yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg mor gryf. Mae gan yr ysgol raglen astudio ar waith i gefnogi addysgu Cymraeg, ond nid yw staff yn ei

defnyddio'n hyderus ac yn ddigon trylwyr i ysbrydoli disgyblion i fwynhau a gwerthfawrogi dysgu Cymraeg a gwneud cynnydd.

Mae bron pob un o'r staff wedi datblygu perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion. Maent yn defnyddio ystod addas o strategaethau a dulliau sy'n gweddu orau i anghenion dysgu unigol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u tasgau dysgu ac yn cynnal ffocws trwy gydol gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio staff yn bwrpasol yn eu hystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored i helpu diwallu anghenion unigolion a grwpiau bach o ddysgwyr. Mae'r aelodau staff hyn yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn gweithio gyda'r disgyblion ieuengaf i gynllunio gyda'i gilydd yn ofalus. Gwnânt y defnydd gorau o'r amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i ymestyn y dysgu ac ymateb i ddiddordebau ac anghenion datblygiadol disgyblion.

Mae athrawon yn mireinio'u hymagweddau at hyrwyddo dysgu annibynnol. Maent wedi sefydlu prosiectau ymchwil dan arweiniad disgyblion, ac yn datblygu 'Curious Quests', sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion archwilio'r parthau y maent yn eu hastudio yn fanylach. O bryd i'w gilydd, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut maent yn mynd ati i wneud eu gwaith, a'i gyflwyno.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu ystod briodol o adborth ysgrifenedig a llafar ar gyfer disgyblion er mwyn helpu symud y dysgu ymlaen. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae adborth gwerthfawr 'yn y fan a'r lle' yn cynorthwyo disgyblion i wneud gwelliannau i'w dysgu ar unwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda iawn. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion ac oedolion yn gryfder yn yr ysgol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr holl ddisgyblion a'r rhieni. Mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd meithringar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn derbyn gofal. Maent yn cynorthwyo disgyblion i reoli anghytundebau yn annibynnol a chreu ethos sy'n hyrwyddo caredigrwydd, parch, a moesau da.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn gynnar ac yn darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Mae athrawon yn creu cynlluniau unigol manwl ar gyfer yr holl ddisgyblion ag ADY sy'n cynnwys targedau penodol sy'n nodi anghenion y disgyblion yn effeithiol. Cânt eu gwerthuso'n rheolaidd ac mae disgyblion a rhieni'n chwarae rhan lawn yn y broses. Mae athrawon yn cynnwys disgyblion, rhieni a safbwyntiau asiantaethau allanol i gynllunio ymyriadau a gwerthuso effaith y gwaith hwn yn dda. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr ac mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Mae amgylchedd yr ysgol ac addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad moesol a moesegol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r eglwys leol ac mae disgyblion yn aml yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gwasanaethau

trwy gydol y flwyddyn; er enghraifft, mae disgyblion yn canu gyda Chôr Meibion Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyngerdd Nadolig blynyddol yn yr eglwys. Mae staff yn darparu cyfleoedd cynlluniedig rheolaidd i ddisgyblion ddod i wybod am wahanol grefyddau, ac maent yn datblygu'r gwahanol ddiwylliannau a gynrychiolir yn yr ysgol yn falch, trwy eu diwrnod diwylliant ysgol gyfan. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau pobl eraill yn sensitif, a chydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel caredigrwydd a chariad.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cryf â rhieni. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith fod arweinwyr a staff yn bobl hawdd mynd atynt, ac yn gwerthfawrogi'r ohebiaeth reolaidd a gânt am ddigwyddiadau yn yr ysgol a chynnydd eu plentyn. Ceir cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i rieni fod yn rhan o daith ddysgu eu plentyn, a'i chefnogi, er enghraifft trwy gyfleoedd i wirfoddoli yn yr ysgol i gefnogi darllen.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Maent yn trefnu bod côr yr ysgol yn canu yn y cinio Nadolig gyda hen bobl ac yn annog disgyblion i ddefnyddio gofod helaeth yr ysgol yn yr awyr agored i chwarae ac archwilio. Yn ychwanegol, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu rheoli arian yn effeithiol. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion opsiwn i osod targed a chynilo arian yng nghlwb cynilo arian wythnosol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthchweil i fod yn aelodau o bwyllgorau amrywiol llais y disgybl. Mae staff yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau am sut i wella'u hysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gofyn am farn disgyblion wrth gynllunio Litwrgi dosbarth ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau wneud penderfyniadau am ddarpariaeth chwarae rhydd yn eu hamgylchedd dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar ystod o weithgareddau corfforol fel dawnsio creadigol a chwaraeon tîm, gan gynnwys pêl-droed a phêl-rwyd. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn cymell disgyblion i gadw'n heini a dyfnhau eu dealltwriaeth o ddatblygu arferion iach.

Mae'r diwylliant diogelu yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ar waith i hyrwyddo presenoldeb disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol a gohebiaeth reolaidd â rhieni.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Trwy weithio'n agos â llywodraethwyr ac arweinwyr eraill, mae'r pennaeth wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ddarparu'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion ddysgu. Mae arweinwyr yn rhoi ethos Catholig Rufeinig yr ysgol yn ganolog i'w gweledigaeth, ac mae'r egwyddorion hyn yn ategu pob agwedd ar ei nodau a'i hamcanion strategol.

Mae'r pennaeth wedi datblygu tîm o staff ymgysylltiedig. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan uwch arweinwyr eraill sy'n modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol, ac o ran hyrwyddo a rhannu diwylliant diogelu'r ysgol. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr a staff yn meithrin perthnasoedd gweithio eithriadol o gynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni am ddysgu'r disgyblion, eu lles a datblygiadau'r cwricwlwm, er enghraifft trwy gylchlythyrau rheolaidd a llawn gwybodaeth.

Mae gan arweinwyr systemau monitro, gwerthuso ac adolygu priodol sy'n cynnwys pob un o'r staff a phartneriaid eraill, yn cynnwys disgyblion a rhieni. Mae'r prosesau hyn yn cefnogi'r gwerthusiad pwrpasol o gryfderau'r ysgol ac o ran nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn llunio adroddiadau monitro a gwerthuso tymhorol defnyddiol sydd wedi'u seilio ar gasglu a dadansoddi amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol ac o ran defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am asesiadau. Rhennir yr adroddiadau hyn gyda staff a llywodraethwyr i hyrwyddo'u dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a pha feysydd sydd angen eu gwella.

Fel rhan o fonitro a gwerthuso parhaus, mae arweinwyr yn nodi meysydd arfer dda ac yn darparu argymhellion addas ynglŷn â ble mae angen gwelliannau. Fodd bynnag, mae gwerthusiadau o ansawdd yr addysgu, yn benodol, yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar farnau, ac o ganlyniad, nid yw staff bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o sut gallant wella'u haddysgu ymhellach. Ar ôl gwerthuso a nodi arfer dda, caiff staff gyfleoedd achlysurol i rannu ac arsylwi addysgu effeithiol o fewn yr ysgol, ond mae cyfleoedd iddynt archwilio ac arsylwi addysgu y tu hwnt i'r ysgol yn gyfyngedig. Nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod safon yr addysgu yn ddigon da yn y Gymraeg, ac o ganlyniad, mae cynnydd disgyblion yn y maes hwn yn gyfyngedig.

Mae llywodraethwyr yn wybodus am yr ysgol. Maent yn gweithio'n galed ac yn ymroi llawer o'u hamser i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cynorthwyo'r pennaeth i gyfrannu'n briodol at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol, gan ystyried eu rôl fel ffrind beirniadol i ddwyn uwch arweinwyr i gyfrif.

Mae llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol ac amserol gan y pennaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Mae llawer o lywodraethwyr yn cefnogi agweddau ar weithdrefnau monitro a gwerthuso'r ysgol yn briodol. Er bod llywodraethwyr wedi dechrau mynd gydag arweinwyr yr ysgol i werthuso tystiolaeth uniongyrchol er mwyn ennill dealltwriaeth well o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ymhellach, megis dechrau y mae hyn. Trwy weithio gyda gwasanaethau prydau bwyd yr awdurdod lleol, maent yn sicrhau bod bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi gweithio gyda staff i ymgorffori diwylliant o ddysgu proffesiynol wedi'i seilio ar ymchwil sy'n helpu meithrin a datblygu gweledigaeth a nodau'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol wedi'i gysylltu'n briodol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn annog staff i ystyried eu hanghenion eu hunain, gan roi'r ymreolaeth iddynt ddilyn eu diddordebau. O ganlyniad, mae staff, er enghraifft, wedi cael cymorth i ennill cymwysterau addysgu ac ennill graddau lefel uwch.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'r corff llywodraethol i adolygu a gwerthuso cyllid ac adnoddau'r ysgol. Maent yn dyrannu a monitro gwariant yn effeithlon, gan gynnwys gwariant y grant datblygu disgyblion, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae rheolaeth ofalus wedi cefnogi nifer o brosiectau adeiladau bach diweddar fel llyfrgell yr ysgol ac adnoddau ar gyfer staff.

Mae'r ysgol yn ysgol hyfforddi arweiniol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon gyda phrifysgol leol. Trwy'r bartneriaeth hon, mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant wedi'i arwain gan yr ysgol. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn yn effeithiol tra'n darparu cyfleoedd defnyddiol i staff presennol fyfyrio ar eu harfer eu hunain a dysgu ac ymgorffori eu syniadau am addysgu a dysgu trwy ddatblygiad proffesiynol pobl eraill.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  01/05/2024